# Media Cymru × PDR × Alacrity Foundation
Cronfa Datblygu 2025

**Datblygu cynnyrch, gwasanaethau a phrofiadau sy'n cael eu gyrru gan arloesedd ar gyfer sector cyfryngau Cymru**

## Tabl cynnwys


Trosolwg ........ 2
Hygyrchedd ........ 3
Dyddiadau Allweddol ........ 4
Diffiniad Media Cymru o Ymchwil a Datblygu ........ 4
Dull gweithredu Media Cymru o ran datblygu cynnwys ........ 5
Dull gweithredu sy'n seiliedig ar bortffolio ........ 6
Cymhwysedd ........ 7
Meini prawf cymhwysedd: ........ 7
Cymorth Prosiect ........ 7
Rheoli cymorthdaliadau ........ 8
Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ........ 10
Cyfrifoldebau'r ymgeisydd ........ 13
Moeseg ac Arloesi Cyfrifol ........ 15
Meini prawf asesu ........ 15

## Trosolwg

Nod Media Cymru yw cefnogi twf sector cyfryngau Cymru drwy fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu i sicrhau effeithiau economaidd a chymdeithasol trawsnewidiol.

Rydyn ni eisiau buddsoddi mewn pobl a chwmnïau sydd gystal â chystadleuwyr byd-eang o ran graddfa eu huchelgais a'u sgiliau arloesi. Mae Cronfa Datblygu Media Cymru yn galluogi unigolion a chwmnïau yng Nghymru i wneud cais am rhwng £10,000 a £50,000 i ymchwilio i gynnyrch, gwasanaethau a phrofiadau sy'n cael eu gyrru gan arloesedd yn y sector cyfryngau ac i'w datblygu.

Hoffem i chi gyflwyno her, problem neu gyfle posibl i'w archwilio drwy brosiect ymchwil a datblygu chwech i ddeuddeg mis. Dylech wneud cais sy'n cynnwys crynodeb o'r cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad yr hoffech ei ddatblygu.

Byddwch eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith cychwynnol i asesu dichonoldeb y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad hwn, yn ogystal â'i addasrwydd i fynd i'r afael â mater neu her benodol a wynebir gan y sector cyfryngau.

Rydyn ni'n chwilio am syniadau sydd â photensial tymor hir i chi neu eich busnes y tu hwnt i oes y prosiect. Erbyn diwedd y prosiect, hoffem i chi fod wedi datblygu prototeip gweithredol neu gynnyrch hyfyw o leiaf fel allbwn o'ch ymchwil a datblygu. Hoffem i chi hefyd fod wedi datblygu cynllun busnes cadarn, rhagolwg llif arian a chais i'w gyflwyno sy'n barod ar gyfer buddsoddwyr.

**Gall eich prosiect ganolbwyntio ar un neu fwy o'r canlynol:**

- Fformatau cyfryngau newydd a datblygu cynnwys arloesol
- Cynhyrchu cyfryngau datblygedig, gan gynnwys cydgyfeirio cynhyrchu rhithwir a chynhyrchu traddodiadol
- Modelau busnes a phrosesau cynhyrchu cyfryngau newydd a chynhwysol
- Sero net a datgarboneiddio'r sector sgrin (mae croeso arbennig i brosiectau sy'n ymateb i ganfyddiadau Cynllun Trawsnewid Bargen Newydd y Sgrin i Gymru

media cymru

- Adrodd straeon drwy dechnolegau ymgolli realiti estynedig (XR), gan gynnwys realiti rhithwir (VR), realiti cynyddol (AR) a realiti cymysg (MR)
- Creu cynnwys gemau fideo a'u cynhyrchu, gan gynnwys cydgyfeirio â chyfryngau eraill
- Deallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnolegau eraill fel offer ar gyfer cynhyrchu'r cyfryngau
- Creu lleoedd, gan gynnwys twristiaeth ddiwylliannol a'r cyfryngau
- Cynhyrchu dwyieithog ac amlieithog
- Newyddion a gwybodaeth gyhoeddus
- Cynhyrchu cerddoriaeth, llais a sain, gan gynnwys perfformio a dosbarthu.
- Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys popeth ac mae'r posibiliadau'n eang.

**Nid** yw'r Gronfa Datblygu yn addas ar gyfer y canlynol:

- Datblygu cynnwys generig (er enghraifft, datblygu ffilmiau byr, ffilmiau mawr neu gynlluniau peilot teledu sy'n cydymffurfio â genres safonol ac arferion adrodd straeon)
- Datblygu busnes cyffredinol, neu
- Gomisiynau celf untro.

## Hygyrchedd

Os oes gennych chi ofynion penodol a fyddai'n gwneud y broses ymgeisio'n fwy hygyrch (fel cyngor, cyfarwyddiadau neu gymorth darllen), neu os hoffech chi drafod fformatau eraill (fideo neu sain, naratif llais, ffont mawr, testun plaen neu iaith arall), anfonwch e-bost at media.cymru@cardiff.ac.uk neu ffonio 02922 511 434.

## Dyddiadau Allweddol

- **3 Chwefror 2025** – Ceisiadau ar agor
- **28 Chwefror 2025 –** Ceisiadau'n cau am hanner dydd: sylwch **ni dderbynnir c**eisiadau ar ôl yr amser hwn
- **14 Ebrill 2025** – Ymgeiswyr yn cael gwybod (dylai ymgeiswyr nodi y gall gymryd hyd at 5 wythnos i gontractau gael eu cyhoeddi)
- **9 Mehefin 2025 –** Prosiectau'n dechrau.

## Diffiniad Media Cymru o Ymchwil a Datblygu

Diffinnir gweithgareddau ymchwil a datblygu fel gwaith creadigol a systematig a wneir i fynd i'r afael â heriau ac i greu cynhyrchion, gwasanaethau, prosesau neu brofiadau newydd neu well.

Gan ystyried cyd-destun y cyfryngau, gallai hyn olygu archwilio, profi neu arbrofi gyda thechnoleg newydd fel realiti estynedig, deallusrwydd artiffisial neu rithgynhyrchu. Gallai hefyd olygu archwilio ffyrdd o weithio sy'n flaengar, yn decach ac yn fwy cyfeillgar i'r blaned. Gallai gynnwys profi dulliau newydd o gynhyrchu, dosbarthu a phrofi cynnwys, neu ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd a bod yn fwy sensitif i'w hanghenion a'u gofynion.

Dyma'r math o brosiectau ymchwil a datblygu rydyn ni'n chwilio amdanynt:

- **Gwreiddiol:** byddant yn seiliedig ar gysyniadau a damcaniaethau gwreiddiol, nid rhai amlwg
- **Creadigol:** byddant yn defnyddio dulliau arbrofol ac yn cynhyrchu canfyddiadau newydd

- **Ansicr:** byddant yn dechrau gyda rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y canlyniadau terfynol

- **Systematig:** byddant yn seiliedig ar ddull gweithredu sydd wedi'i gynllunio a'i gyllidebu

- **Trosglwyddadwy:** byddant yn cynhyrchu canlyniadau y gellir eu hatgynhyrchu er mwyn sicrhau manteision ehangach.

Dull gweithredu Media Cymru o ran datblygu cynnwys

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu sy'n archwilio dulliau arloesol a newydd o ddatblygu cynnwys, creu fformatau cyfryngau newydd a thechnegau cynhyrchu cynnwys. **Fodd bynnag, nid ydym yn comisiynu'r gwaith o ddatblygu cynnwys cyfryngau masnachol.** Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yw bod canlyniad prosiect datblygu cynnwys Ymchwil a Datblygu Media Cymru yn debygol o fod yn naill ai'n brototeip, yn profi cysyniad, yn cyflwyno cais, yn fideo hyrwyddo byr neu'n gynllun technegol, yn hytrach na chynllun peilot, rhaglen neu ffilm orffenedig.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau datblygu cynnwys a fyddai'n gymwys ar gyfer cyllid Ymchwil a Datblygu gan Media Cymru:

- Archwilio a phrofi'r defnydd o dechnolegau newydd fel deallusrwydd artiffisial, technolegau cynhyrchu cyfryngau uwch, neu dechnolegau realiti estynedig
- Dulliau cydweithio newydd sy'n cwmpasu gwahanol is-sectorau creadigol fel cynhyrchu teledu/ffilm, gemau a pherfformiadau byw, i greu mathau newydd o gynnwys cyfryngau cydgyfeiriol a dulliau dosbarthu
- Dulliau arloesol o adrodd straeon
- Gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, fel grwpiau ffocws a gweithdai, sydd wedi'u dylunio i ddatgelu cysyniadau, dulliau neu safbwyntiau newydd i lywio'r gwaith o ddatblygu cynnwys

- Ymchwil i gynulleidfaoedd sy'n arwain at arloesi cysyniadol a/neu gynhyrchu cynnwys sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd mwy amrywiol neu rai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol
- Ymchwil i'r farchnad sy'n arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o farchnadoedd byd-eang a datblygu strategaethau ar gyfer twf economaidd wedi'i dargedu.

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar bortffolio

Rydyn ni'n awyddus i ariannu amrywiaeth o brosiectau – gwahanol dechnolegau, marchnadoedd, aeddfedrwydd technolegol, lleoliadau a chategorïau ymchwil. Rydyn ni'n galw hyn yn ddull gweithredu portffolio.

Yn dilyn asesiad Media Cymru, bydd pob cais y gellir ei ariannu yn cael ei ystyried gan banel o gynghorwyr annibynnol ac aelodau perthnasol o Dîm Cyflawni Media Cymru. Bydd y panel yn adolygu'r ceisiadau yn unol â'r Meini Prawf Portffolio ac yn argymell i Media Cymru pa brosiectau fyddai'n ffurfio portffolio cytbwys ar draws pedwar piler strategol y rhaglen (gweler isod). Bydd yr argymhelliad hwnnw'n sail i benderfyniad terfynol Media Cymru ar ddyfarniadau ariannol

## Pileri Media Cymru

Rydyn ni'n awyddus i gefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael â rhai agweddau ar ein pedwar piler strategol, neu bob un ohonynt:

- Gwyrdd - lleihau effaith amgylcheddol y sector
- Teg - creu sector teg, cyfartal ac amrywiol
- Byd-eang - cynyddu cydweithrediadau rhyngwladol
- Twf - sbarduno twf a chynhyrchiant drwy Ymchwil a Datblygu.

media cymru

## Cymhwysedd

Gyda'n holl weithgarwch, rydyn ni'n awyddus i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl i sicrhau ein bod yn clywed y syniadau gorau. Rydyn ni'n cydnabod bod buddsoddiad ym maes ymchwil a datblygu yn canolbwyntio'n rhy aml ar rwydweithiau nad ydynt yn cynrychioli ein cymuned ehangach o ran ei hamrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol. Ein nod yw newid y patrwm hwnnw ac rydyn ni'n gweithio i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd strwythurol hwn yn y sector. Rydyn ni hefyd yn gobeithio ysbrydoli llwybrau ymchwil a datblygu trawsnewidiol a chynhwysol a fydd yn herio'r ffyrdd presennol o gynhyrchu a meddwl.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau amrywiol sy'n wahanol o ran eu maint, gan gynnwys microfusnesau, unig fasnachwyr a gweithwyr llawrydd.

Meini prawf cymhwysedd:

- Mae eich cwmni neu'ch gwaith wedi'i leoli yng Nghymru
- Mae gennych syniad ymchwil a datblygu wedi'i fynegi'n glir
- Rydych chi'n gweithio yn niwydiant cyfryngau Cymru, neu mae eich syniad o fudd uniongyrchol i ddiwydiant cyfryngau Cymru
- Gallwch neilltuo amser ac ymdrech i gwblhau prosiect ymchwil a datblygu rhwng mis Mehefin 2025 a Mai 2026
- Dim ond un cais y byddwn yn ei dderbyn a'i ariannu fesul cwmni/sefydliad fel arweinydd prosiect

## Cymorth Prosiect

Os byddant yn llwyddiannus, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn elwa ar bedair sesiwn orfodol (cyfanswm o wyth awr), ynghyd â sesiwn ddewisol (tair awr) gydag ymgynghoriaeth ddylunio sy'n flaenllaw yn y byd a chyfleuster ymchwil gymhwysol PDR. Bydd y sesiynau hyn yn eich cefnogi ar eich taith arloesi ac maent yn seiliedig ar fethodoleg sefydledig i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu:

media cymru

**Sesiwn un:** Herio a chynllunio
**Sesiwn dau:** Gwneud synnwyr o ddata ymchwil
**Sesiwn tri:** Syniad a Phrototeip
**Sesiwn pedwar:** Canfyddiadau – Dichonoldeb a'r camau nesaf

Bydd yna hefyd bedair sesiwn gymorth sy'n orfodol (cyfanswm o wyth awr) gan The Alacrity Foundation sy'n darparu arbenigedd datblygu busnes a masnacheiddio i brosiectau.

Lle bo'n briodol, bydd tîm Media Cymru yn ceisio ategu hyn drwy ddefnyddio profiad o brosiect Mannau Arloesedd Media Cymru.

Bydd prosiectau hefyd yn cael eu cefnogi gan Gynhyrchydd o Media Cymru.

## Rheoli cymorthdaliadau

Ystyr cymhorthdal yw pan fydd awdurdod cyhoeddus yn rhoi cymorth i fenter er mwyn sicrhau mantais economaidd i'r fenter honno. Mae cymorthdaliadau a ddyfernir, yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, yn darparu ffordd ddilys o gael cyllid cyhoeddus i gefnogi gweithgarwch economaidd.

Cynigir Cronfa Datblygu Media Cymru ar ffurf grant arian parod gan Brifysgol Caerdydd, hyd at £50,000. Mae dau lwybr Rheoli Cymhorthdal y gellid eu defnyddio i gyflwyno Cronfa Datblygu Media Cymru: **Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA)** neu'r **Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (RDI SSS)**.

## Cymorth Ariannol Lleiaf

O dan reolau Cymorth Ariannol Lleiaf, gall awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu hyd at £315,000 o gymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf i fenter dros 'gyfnod perthnasol' o dair blynedd ariannol. Y 'cyfnod perthnasol' hwn yw:

- y rhan sydd wedi mynd heibio o'r flwyddyn ariannol gyfredol sy'n dod i ben ar 30 Mawrth (h.y. o fis Ebrill ymlaen) a’r
- ddwy flynedd ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn y cais gofynnir i chi ddatgan eich cymhwysedd i dderbyn cyllid drwy'r llwybr Cymorth Ariannol Lleiaf. I gadarnhau eich bod yn gymwys, mae angen i chi gadarnhau nad yw ychwanegu ein cyllid grant yn golygu eich bod yn derbyn mwy na’r uchafswm o £315,000 Cymorth Ariannol Lleiaf sydd ar gael dros y 'cyfnod perthnasol' o dair blynedd ariannol.

Wrth asesu’r cymorth blaenorol y gallech fod wedi’i gael dros y cyfnod perthnasol, dylech gynnwys y canlynol:

- Cymorth De Minimis
- Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA) a roddir fel Hawliau Arbennig Tynnu Allan (SDR)
- Cymorth Ariannol gan y Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)
- Cymorth Ariannol Lleiaf

Wrth asesu Cymorth Ariannol Lleiaf, **rhaid i chi gynnwys pob sefydliad yn strwythur eich grŵp sy'n gweithredu o dan 'reolaeth gyffredin'.** Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn Atodiad 1 y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Rheoli Cymorthdaliadau'r DU 2022, para 15.40-15.46, tt. 174-176.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Canllawiau Statudol, Pennod 7. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno adolygu'r canllawiau ehangach sydd ar gael gan Uned Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru, neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn gallu rhoi cyngor ar gymhwysedd na rhwymedigaethau cyfreithiol unigolion.

Os yw'r swm arfaethedig hwn yn fwy na £315,000, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (RDI SSS). Cysylltwch â media.cymru@caerdydd.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad.

## Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Mae cymorth gan Media Cymru a ddyfernir fel grant arian parod o dan y Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (RDI SSS) yn unol ag Adran 10 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Yn eich cais, gofynnir i chi ddatgan eich cymhwysedd ar gyfer RDI SSS a darparu gwybodaeth sy'n sefydlu sut mae'r prosiect, eich sefydliad a lefel y cyllid yn bodloni meini prawf y cynllun.

Mae'r ganran uchaf o gymorth grant RDI SSS y gall Media Cymru ei darparu yn dibynnu ar faint y cwmni (fel y pennir o dan Ddeddf Cwmnïau 2006) a'r categori gweithgarwch ymchwil a datblygu y mae eich prosiect yn bwriadu ei gyflawni.

| Qualifying criteria | Small enterprises | Medium-sized enterprises |
|---|---|---|
| Turnover | Not more than £10.2 million | Not more than £36 million |
| Balance Sheet Total | Not more than £5.1 million | Not more than £18 million |
| Number of Employees | Not more than 50 | Not more than 250 |

Mae unrhyw gwmnïau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cwmnïau bach neu ganolig yn gwmnïau mawr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan ganllawiau Tŷ'r Cwmnïau Llywodraeth y DU.

**Categorïau gweithgarwch ymchwil**

**Ymchwil ddiwydiannol** yw'r ymchwil arfaethedig neu'r ymchwiliad beirniadol sydd wedi'i anelu at gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd ar gyfer datblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd; neu sydd â'r nod o sicrhau gwelliant sylweddol mewn cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau presennol.

Ystyr **datblygu arbrofol** yw caffael, cyfuno, siapio a defnyddio gwybodaeth a sgiliau gwyddonol, technolegol, busnes, a gwybodaeth a sgiliau perthnasol eraill gyda'r nod o ddatblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well.

media cymru

**Y lefelau o gyllid sydd ar gael**

| | Industrial Research | Experimental Development |
|---|---|---|
| **Small Enterprises** | 70% of the eligible costs of the project | 45% of the eligible costs of the project |
| **Medium Enterprises** | 60 % of the eligible costs of the project | 35% of the eligible costs of the project |
| **Large Enterprises** | 50% of the eligible costs of the project | 25% of the eligible costs of the project |

**Costau cymwys**

Bydd Media Cymru yn rhoi templed o gyllideb i chi er mwyn cofnodi cyfanswm eich costau cymwys. Mae uchafswm y grant y gallwch chi ofyn amdano wedi'i gyfyngu i ganran y costau hyn fel y nodir yn y tabl uchod. Rhaid i'r holl gostau fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect, wedi'u cyfyngu i'r costau sy'n gwbl angenrheidiol ar gyfer y prosiect, ac wedi'u hysgwyddo rhwng dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y prosiect.

O dan y cynllun RDI SSS, mae'r costau canlynol yn gymwys:

- Costau staff neu bersonél; ymchwilwyr, technegwyr a staff ategol eraill sydd wedi'u cyflogi ar gyfer y prosiect.
- Costau offer sydd eu hangen ar gyfer y prosiect.
- Costau cynnal ymchwil ac ymgynghori allanol, ac ymchwil gontractiol neu asedau gwybodaeth eraill, gan gynnwys patentau a brynir neu a drwyddedir o ffynonellau allanol.

- Costau gweithredu prosiectau fel deunyddiau, cyflenwadau a nwyddau tebyg.
- Gorbenion (bydd angen i'ch methodoleg neu'ch proses o gyfrifo'r rhain gael ei hadolygu gan Media Cymru).

**Os dyfernir cyllid o dan RDI SSS, byddwn ni'n gofyn i chi ddangos tystiolaeth o'r costau rydych wedi'u hysgwyddo pan fyddwch chi'n hawlio'r grant gennym ni.** Darperir manylion a chanllawiau ychwanegol ar ddarparu'r polisïau cadw, tystiolaeth a gwybodaeth ariannol ar ôl cadarnhau cymhwysedd ar gyfer RDI SSS.

Bydd templed y gyllideb yn gofyn i chi gadarnhau ffynonellau incwm eraill ar gyfer y prosiect. Hefyd, bydd yn gofyn i chi ddangos sut byddwch chi'n talu gweddill costau'r prosiect nad yw'r grant yn talu amdanynt, sef eich **arian cyfatebol.** Balans y costau rydych chi'n talu amdanynt, llai unrhyw ffynonellau incwm/cyllid allanol eraill ar gyfer y prosiect, yw eich cyfraniad arian cyfatebol a delir o'ch adnoddau eich hun. Gallai mathau eraill o incwm i gefnogi'r prosiect gynnwys ffynonellau eraill o gyllid allanol gan fuddsoddwyr arian parod eraill neu grantiau cyhoeddus.

**Rhaid i werth yr holl arian cyhoeddus a ddefnyddir i gefnogi'r prosiect beidio â bod yn fwy na chanran y cymhorthdal a ganiateir.** Dydy cyfraniadau o fathau eraill ar gyfer y prosiect gan drydydd partïon ddim yn rhan o'ch costau cymwys na'ch arian cyfatebol.

Bydd aelod o'n tîm yn fwy na pharod i gael sgwrs gyda chi i drafod eich syniadau am brosiect, a ydych chi'n bodloni gofynion y cynllun, ac ymholiadau am y gyllideb. Cysylltwch â media.cymru@cardiff.ac.uk.

## Cyfrifoldebau'r ymgeisydd

Er ein bod yn annog cydweithio, rhaid i bob cais ar gyfer prosiect gael ei arwain gan **un person neu sefydliad**. Yn dibynnu ar y math o sefydliad, rhaid i'r ymgeisydd fod â hawl gyfreithiol i weithio yn y DU neu fod yn fusnes neu'n elusen sydd wedi'u cofrestru yn y DU.

Mae'r prif ymgeisydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Bod yn ‘arweinydd cytundebol’ neu’n llofnodwr Cytundeb Grant Media Cymru
- Arwain, rheoli a chyflawni’r prosiect yn unol â’r cynnig a’r gyllideb y cytunwyd arnynt
- Hawlio a derbyn cyllid grant a chadw cofnodion ariannol priodol o’r holl wariant
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer monitro ac adrodd ar y prosiect, gan gysylltu’n rheolaidd ag aelod penodol o dîm Media Cymru.

Pan fydd y prosiect yn gydweithredol, ac yn cynnwys cyd-ymgeiswyr eraill, bydd yr ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhoi unrhyw gytundebau cydweithio neu is-gontractio angenrheidiol ar waith gyda chyd-ymgeiswyr
- Dosbarthu cyllid i gyd-ymgeiswyr yn unol â chyllideb y prosiect y cytunwyd arni.

Bydd yn rhaid i’r prif ymgeisydd roi sicrwydd bod ganddo gyfrif banc busnes, ei fod yn gallu rheoli gofynion llif arian ei brosiectau, a bod ganddo brosesau ariannol priodol ar waith i gyflawni prosiectau yn unol â’n telerau ac amodau cyllido.

Pan fydd prosiect yn cael ei ffurfio gan gonsortiwm o sefydliadau, rhaid enwi pob sefydliad sy’n cydweithio (neu ‘gyd-ymgeiswyr’) yng nghynnig y prosiect.

Byddwn yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy o sefydliadau fel rhan o’n hasesiadau o ddichonoldeb y prosiect. Mae’r canlyniadau’n cael eu hystyried yn erbyn maint y cyllid y gofynnwyd amdano a hyd gweithgareddau’r prosiect. Rhaid i’r ymgeisydd a’r cyd-ymgeiswyr fod yn fodlon cyflwyno dogfennau ategol ar gais.

Rhaid i unrhyw ymgeisydd fod yn gymwys i gael cyllid yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 pan fyddwn yn cadarnhau y dyfernir cyllid i chi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch rheoli cyllid, cysylltwch â media.cymru@cardiff.ac.uk a byddwn yn fwy na pharod i roi arweiniad i chi.

## Moeseg ac Arloesi Cyfrifol

Mae Media Cymru yn cadw at y safonau uchaf posibl o ran moeseg ymchwil. Mae gennym rai gwerthoedd sylfaenol sy'n llywio ein gweithdrefnau, sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â phrif amcanion Media Cymru. Mae ein hymrwymiad i safonau moesegol uchel hefyd yn ceisio llywio, meithrin a chefnogi'r gweithgareddau ymchwil a datblygu a gynllunnir ac a ddatblygir gan y prosiectau a ariennir gennym. Yn dilyn Fframwaith Arloesi Cyfrifol UKRI, bydd ein paneli asesu yn ystyried effaith foesegol y prosiect ymchwil a datblygu arfaethedig (gan gynnwys canlyniadau anfwriadol posibl). Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried ystyriaethau moesegol yn eich cais, yn enwedig wrth ddangos effaith economaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol bosibl y prosiect ymchwil a datblygu arfaethedig.

## Meini prawf asesu

Bydd cynigion eich cais yn cael eu hasesu mewn pum maes allweddol:

1. **Eich syniad ymchwil a datblygu**

Rydyn ni am i chi egluro'n glir y syniad ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad yr hoffech ei ddatblygu drwy'r cyllid ymchwil a datblygu hwn. Hoffem i chi hefyd sôn am unrhyw waith dichonoldeb rydych chi wedi'i gwblhau a fyddai'n cefnogi eich cynnig.

2. **Y gweithgareddau ymchwil a datblygu yr hoffech eu cyflawni**

Rydyn ni'n diffinio ymchwil a datblygu fel proses greadigol a systematig o gynnal ymchwil wrth i chi ddatblygu eich cynnyrch, gwasanaeth neu brofiad newydd. Mae ymchwil a datblygu yn aml yn dechrau gyda phroblem, angen neu gyfle amlwg, yn hytrach na rhagdybio ateb. Mae'r broses ymchwil a datblygu wedyn yn eich galluogi i nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem neu'r angen hwnnw. Efallai fod gennych syniadau da am y ffordd orau o wneud hyn ond rydych yn disgwyl i'r rhain newid neu ddatblygu'n raddol fel rhan o'r broses ymchwil a datblygu.

Dyma eich cyfle i amlinellu’r meysydd gwaith yr hoffech eu harchwilio fel rhan o’r prosiect hwn. Byddwch yn realistig yma o ran yr hyn y gallwch ei gyflawni o fewn yr amserlen gyda’r adnoddau sydd ar gael.

3. **Pa mor hawdd yw cyflawni eich amserlen arfaethedig**

Rydyn ni am i chi greu cynllun amlinellol ar gyfer eich gwaith ymchwil a datblygu sy'n defnyddio arbenigedd priodol ac sy'n ystyried ymrwymiadau eraill ar eich amser, sy'n ein gwneud ni’n ffyddiog eich bod yn gallu cyflawni o fewn hyd arfaethedig y prosiect.

Dylech hefyd ystyried yr 16 awr orfodol o gefnogaeth gan PDR a The Alacrity Foundation yn eich cynllun.

4. **Cyllideb a chyllid**

Ar gyfer ymgeiswyr sy’n dilyn y llwybr rheoli cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (darllenwch yr adran Rheoli Cymhorthdal), dim ond costau dangosol y byddwn yn gofyn amdanynt yn ystod y cam ymgeisio. Gofynnir i chi ddarparu cyllideb fanylach yn ddiweddarach os bydd eich cais yn llwyddiannus.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sy’n dilyn llwybr y Cynllun Cymorthdaliadau Syml ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ddarparu cyllideb lawn gyda chyfrif o’u cyllid cyfatebol arfaethedig.

Ystyriwch y gwaith yr hoffech ei wneud a phwy fydd yn gwneud y gwaith hwn.  Dylech hefyd nodi'r gofyniad ar gyfer y 12 awr gorfodol o gefnogaeth gan PDR a The Alacrity Foundation a sicrhau bod yr amser ar gyfer hyn yn cael ei gyllidebu.

5. **Effaith a ragwelir**

a. **Effaith economaidd**

Gallai manteision economaidd eich gweithgaredd ymchwil a datblygu fod fel a ganlyn:

- Mae’n galluogi twf eich cwmni neu’ch gwaith (neu greu cwmni newydd)
- Drwy gynyddu eich effeithlonrwydd bydd gennych fantais dros eraill
- Mae’n cynnig ffrydiau refeniw ychwanegol
- Mae’n creu manteision economaidd ehangach yn sector cyfryngau Cymru.

Gallai eich ymateb gyfeirio at:

- Y marchnadoedd targed ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth neu’r profiad rydych chi’n dymuno ei greu ac unrhyw farchnadoedd posibl eraill (domestig, rhyngwladol neu’r ddau)
- Maint y marchnadoedd targed ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad rydych chi am ei greu
- Cynaliadwyedd ariannol hirdymor y cynnyrch, y gwasanaeth neu’r profiad y byddwch yn ei greu drwy eich gwaith ymchwil a datblygu
- Costau llai / effeithlonrwydd cynhyrchu uwch
- Mwy o refeniw o werthu
- Mwy o refeniw o drwyddedu
- Mwy o refeniw o allforion
- Model busnes newydd
- Gwella ansawdd cynnyrch, gwasanaethau a/neu brofiadau
- Cyflogi mwy o aelodau o staff eraill
- Datblygu eiddo deallusol (IP) newydd
- Datblygu adnoddau eiddo deallusol presennol.

Po fwyaf diriaethol ac uchelgeisiol yw’r manteision hyn, y gorau y bydd prosiect yn sgorio yn erbyn y meini prawf hyn.

b. **Effaith gymdeithasol a diwylliannol**

Mae angen i chi ystyried effaith gymdeithasol a diwylliannol eich gweithgaredd ymchwil a datblygu. Gall yr effeithiau yma gynnwys:

- Cynrychioli diwylliant, iaith, straeon, tirweddau Cymru
- Cyrraedd cynulleidfaoedd neu farchnadoedd amrywiol neu rai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol

- Gwella cydraddoldeb mynediad at y sector cyfryngau
- Gwella lefelau llesiant neu ansawdd bywyd pobl
- Cynyddu ymwybyddiaeth ryngwladol o sector cyfryngau Cymru a meithrin cydweithio rhyngwladol.

c. **Effaith amgylcheddol**

Mae angen i chi ystyried effaith amgylcheddol eich gweithgaredd ymchwil a datblygu. Gall yr effeithiau gynnwys:

- Cyfraniad at dargedau sero net
- Cael effaith amgylcheddol gadarnhaol arnoch chi/eich cwmni/diwydiant ehangach
- Gwella ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o'r argyfwng hinsawdd.

Gallai eich ymateb gyfeirio at:

- Llai o effaith amgylcheddol ar eich cwmni a'r sector o ganlyniad i'r gwaith hwn
- Lleihau allyriadau
- Defnyddio llai o drafnidiaeth
- Lleihau neu ail-bwrpasu deunyddiau
- Prosesau sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon.

## Cwestiynau'r cais

**Sylwch fod yn rhaid i bob cais gael ei gyflwyno drwy'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan: https://media.cymru/cym/funding/cronfa-datblygu/**

Os ydych chi'n dymuno paratoi eich atebion all-lein, dyma gwestiynau allweddol y ffurflen gais*:

**Meini Prawf**

- Mae fy menter (cwmni neu weithiwr llawrydd) wedi'i lleoli yng Nghymru

- Rydw i/Mae fy nghwmni'n gymwys i dderbyn cyllid grant a ddyfarnwyd o dan Gymorth Ariannol Lleiaf. (gweler y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyllid grant)
- Rydw i/ Mae fy nghwmni ar gael, ac mae gennyf/gennym y capasiti i weithio ar y prosiect hwn rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mai 2026.

1. **Teitl y prosiect**

2. **Cyflwynwch eich hun/cwmni/sefydliad a'r gwaith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd (dim mwy na 300 gair).**

3. **Ysgrifennwch grynodeb o'r cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad yr hoffech ei ddatblygu drwy'r prosiect ymchwil a datblygu hwn (dim mwy na 300 gair).**

4. **Dywedwch wrthym am unrhyw waith rydych chi wedi'i wneud i asesu dichonoldeb y syniad yr hoffech ei ddatblygu (dim mwy na 300 gair).**

5. **Dywedwch wrthym am y gweithgareddau Ymchwil a Datblygu yr hoffech ymgymryd â nhw yn ystod y prosiect hwn a sut bydd hyn yn cefnogi datblygiad cynnyrch, gwasanaeth neu brofiad (dim mwy na 300 gair).**

6. **Beth yw hyd arfaethedig y prosiect mewn misoedd?**
   Dylai eich prosiect bara rhwng 9 a 12 mis.

7. **Dangoswch sut mae modd cyflawni gweithgareddau eich prosiect ymchwil a datblygu o fewn yr amserlen yr ydych wedi'i chynnig.**
   Mae'n bwysig eich bod yn dangos amserlen glir a chyraeddadwy ar gyfer elfennau allweddol i'w cyflawni. Efallai yr hoffech ddefnyddio dyddiadau allweddol a cherrig milltir y prosiect i ateb y cwestiwn hwn.

8. **Beth yw'r gyllideb a amcangyfrifir ar gyfer y cam ymchwil a datblygu?**
   Rydyn ni'n cynnig rhwng £10,000 a £50,000 ar gyfer y rownd gyllido hon.

9. **Rhowch syniad o'r math o gostau rydych chi'n debygol o'u hwynebu wrth gyflawni eich prosiect drwy'r cam ymchwil a datblygu.**
   Cyllideb dros dro yw hon. Gofynnir i chi ddarparu cyllideb fanylach yn ddiweddarach os bydd eich cais yn llwyddiannus, gydag arweiniad os bydd angen.

10. **Esboniwch sut gallai eich prosiect ymchwil a datblygu gael effaith economaidd gadarnhaol. Gall hyn gynnwys yr effaith arnoch chi, eich cwmni neu'r sector (dim mwy na 300 gair).**
    Gallai eich ymateb gyfeirio at y:
    'Meini Prawf Asesu Cais: Effaith a ragwelir: Effaith economaidd' uchod.

11. **Esboniwch sut bydd eich prosiect yn cael effaith gymdeithasol a diwylliannol gadarnhaol (dim mwy na 250 gair).**
    Darllenwch 'Meini Prawf Asesu Cais: Effaith a ragwelir: Effaith gymdeithasol a diwylliannol' uchod.

12. **Esboniwch sut bydd eich prosiect yn cael effaith economaidd gadarnhaol (dim mwy na 250 gair).**
    Darllenwch 'Meini Prawf Asesu Cais: Effaith a ragwelir: Effaith amgylcheddol' uchod.

*I weld y cais llawn, ewch i'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan:
https://media.cymru/cym/funding/cronfa-datblygu/

## Cwestiynau Cyffredin

**Faint o gyllid mae Media Cymru yn ei gynnig?**

Bydd Media Cymru yn darparu hyd at £50,000 o gyllid datblygu tuag at brosiect ymchwil a datblygu deuddeg mis.

**Rydw i wedi gwneud cais am Gyllid Media Cymru o'r blaen, oes modd i mi wneud cais eto?**

Oes. Rhaid i unrhyw gais am gyllid Media Cymru roi sylw i feini prawf asesu'r cais, yn ogystal ag ateb cwestiynau'r ffurflen gais a chyflwyno tystiolaeth uniongyrchol i gadarnhau'r atebion (gweler uchod).

**A ydy'r prosiectau yn gallu bod yn gydweithrediadau rhwng nifer o bartneriaid?**

Ydynt. Rydyn ni'n annog cydweithio, ond mae'n rhaid i bob cais ar gyfer prosiect gael ei arwain gan un person neu sefydliad.

**A all fy mhrosiect gynnwys cyllid neu grantiau ychwanegol nad ydynt yn cael eu darparu gan Media Cymru?**

Rhaid i'r holl gostau gael eu diffinio'n glir yng nghyllideb eich prosiect a dylent ddangos yn glir pa gostau prosiect sy'n cael eu talu gan ddefnyddio cyllid Media Cymru. Os yw eich prosiect yn cynnwys cyllid ychwanegol nad yw'n cael ei ddarparu gan Media Cymru, dylid nodi hyn yn glir yn eich cyllideb hefyd. Drwy gydol eich prosiect, bydd tîm cyflawni Media Cymru yn monitro cyllideb eich prosiect gyda chi yn ystod cyfarfodydd cerrig milltir rheolaidd.